COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL
CYNIGION DRAFFT

DINAS A SIR CAERDYDD

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER DINAS A SIR CAERDYDD

CYNIGION DRAFFT

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB O'R CYNIGION

3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG

4. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD CYN Y CYNIGION DRAFFT

5. ASESIAD

6. CYNIGION

7. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

ATODIAD 1 RHESTR TERMAU
ATODIAD 2 AELODAETH BRESENNOL Y CYNGOR
ATODIAD 3 AELODAETH ARFAETHEDIG Y CYNGOR
ATODIAD 4 CYFARWYDDYD Y GWEINIDOG A LLYTHYR YCHWANEGOL
ATODIAD 5 CRYNODEB O'R CYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 2039 5031
Rhif Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.lgbc-wales.gov.uk

FSC ©

INVESTORS IN PEOPLE

RHAGAIR

Bydd y sawl sydd wedi derbyn yr adroddiad hwn sy'n cynnwys ein Cynigion Drafft eisoes yn ymwybodol o'r Arolwg o Drefniadau Etholiadol hwn ar gyfer yr holl ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru.

Egwyddor bwysig ar gyfer ein gwaith yw ceisio cyflawni cydbwysedd democrataidd gwell yn ardaloedd pob cyngor fel bod pob pleidlais a fwrir mewn etholiad, cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol, o'r un gwerth â phob un arall yn ardal y cyngor. Mae cyflawni'r nod hwn, ynghyd â mesurau eraill, yn arwain at lywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Ar ddechrau'r broses adolygu hon rydym wedi canfod gwahaniaethau sylweddol o ran cymhareb nifer etholwyr i gynghorwyr, nid yn ardaloedd cynghorau gwahanol yng Nghymru yn unig ond hefyd yn ardaloedd y cynghorau eu hunain.

Mae nifer o ffactorau sy'n cyfyngu ar y modd y mae'r Comisiwn yn ymgymryd â'i waith:

- Ardaloedd cymunedol yw'r sylfeini ar gyfer adrannau etholiadol y mae Cymru wedi'i rhannu iddynt. Sefydlwyd yr ardaloedd cymunedol hyn dros 30 mlynedd yn ôl ac er gwaethaf y gwaith a wnaed gan rai awdurdodau lleol a gennym ninnau, mae llawer o leoedd o hyd lle nad yw'r ardaloedd cymunedol yn adlewyrchu patrwm presennol bywyd cymunedol.

- Mae cywirdeb y wybodaeth am y nifer o breswylwyr yn ardal pob cyngor ymhen pum mlynedd yn her i bawb – mae'n anodd rhagweld y dyfodol. Mae'r Comisiwn felly wedi mabwysiadu ymagwedd wyliadwrus wrth ddefnyddio'r rhagamcaniadau hyn.

- Mae'r rheolau cyfreithiol rydym yn gorfod cydymffurfio â hwy yn eithaf llym hefyd ac unwaith eto yn ein cyfyngu o ran beth y gallwn ei wneud ar gyfer pob adran etholiadol.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu ein hargymhellion cychwynnol ar yr hyn y mae'n rhaid ei wneud yn ardal y cyngor hwn. Rydym am ddarparu cydbwysedd democrataidd gwell ynghyd â threfniadau etholiadol sy'n cyfrannu i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus ym mha le bynnag yng Nghymru rydych yn byw.

Paul Wood
Cadeirydd

1. CYFLWYNIAD

1.1 Yr ydym ni, aelodau Comisiwn Ffiniau Lywodraeth Leol i Gymru, wedi cwblhau'r rhan gyntaf o'r arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd ac yn cyflwyno ein Cynigion Drafft ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol. Ceir rhestr termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 1. Ar hyn o bryd, mae gan Dinas a Sir Caerdydd etholaeth o 247,149. Ar hyn o bryd, fe'i rhennir yn 29 adran (pedair un aelod a 25 aml-aelod) sy'n ethol 75 o gynghorwyr. Ar hyn o bryd, y gymhareb gyffredinol bresennol o aelodau i etholwyr yn y Ddinas a'r Sir yw un cynghorydd fesul 3,295 o etholwyr. Nodir y trefniadau etholiadol presennol yn fanylach yn Atodiad 2.

2. CRYNODEB O'R CYNIGION

2.1 Rydym yn cynnig newid i drefn yr adrannau etholiadol a fydd yn cyflawni gwelliant sylweddol mewn cydraddoldeb etholiadol ar draws Dinas a Sir Caerdydd ond ni fydd yn arwain at unrhyw newid i faint y cyngor a fydd yn aros yn 75 o aelodau etholedig.

3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG

3.1 Yn unol ag Adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn, ar gyfnodau nad ydynt yn llai na deng mlynedd a dim yn fwy na phymtheg mlynedd, i adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr holl brif ardaloedd yng Nghymru at ddibenion ystyried a ddylid gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn newid y trefniadau etholiadol hynny ai peidio.

3.2 Derbyniodd y Comisiwn gyfarwyddyd gan Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno adroddiad ar yr arolwg o drefniadau etholiadol Dinas a Sir Caerdydd erbyn 30 Mehefin 2011.

Trefniadau Etholiadol

3.3 Diffinnir "trefniadau etholiadol" prif ardal yn adran 78 o Ddeddf 1972 fel:

i) cyfanswm y cynghorwyr i'w hethol i'r cyngor;

ii) nifer yr adrannau etholiadol a'u ffiniau;

iii) nifer y cynghorwyr i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol; ac

iv) enw unrhyw adran etholiadol.

Rheolau i Gydymffurfio â Hwy wrth Ystyried Trefniadau Etholiadol

3.4 Yn unol ag Adran 78, cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol gwneud hynny, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â'r rheolau a nodir yn Atodlen 11 i Ddeddf 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1994). Mae'n ofynnol, yn unol â'r rhain, fod y Comisiwn yn trefnu bod un aelod ar gyfer pob adran etholiadol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall

y Gweinidog roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn ystyried dymunoldeb darparu ar gyfer adrannau etholiadol aml-aelod ar gyfer yr holl brif ardal neu rannau ohoni.

3.5 Yn ôl y rheolau, mae'n ofynnol hefyd:

Ystyried unrhyw newid yn nifer neu ddosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y brif ardal sy'n debygol o ddigwydd yn ystod y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl ystyried y trefniadau etholiadol:

i) yn ddarostyngedig i baragraff (ii), bydd nifer yr etholwyr llywodraeth leol yr un neu cyn agosed â phosibl, ym mhob adran etholiadol yn y brif ardal;

ii) lle bo un neu fwy o adrannau aml-aelod, bydd cymhareb etholwyr llywodraeth leol i nifer y cynghorwyr yr un neu cyn agosed â phosibl ym mhob adran etholiadol yn y brif ardal (gan gynnwys unrhyw adran nad yw'n un aml-aelod);

iii) bydd pob ward gymunedol sydd â chyngor cymunedol (naill ai ar wahân neu'n gyffredin) yn gyfan gwbl y tu mewn i adran etholiadol unigol; a

iv) bydd unrhyw gymuned na rennir yn wardiau cymunedol yn gyfan gwbl y tu mewn i adran etholiadol unigol.

Wrth ystyried y trefniadau etholiadol, rhaid i ni ystyried (a) dymunoldeb pennu ffiniau sydd ac a fydd yn hawdd eu hadnabod; a (b) unrhyw gysylltiadau lleol a dorrir wrth lunio unrhyw ffin benodol.

Cyfarwyddiadau'r Gweinidog

3.6 Derbyniodd y Comisiwn gyfarwyddyd gan y Gweinidog y dylai ystyried dymunoldeb adrannau etholiadol aml-aelod ym mhob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

3.7 Derbyniodd y Comisiwn y cyfarwyddiadau canlynol gan y Gweinidog hefyd o ran cynnal yr arolwg:

i) ystyrir bod angen lleiafswm o 30 cynghorydd er mwyn rheoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol;

ii) er mwyn lleihau'r risg o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn mynd yn afrosgo ac yn anodd ei reoli, fel arfer mae angen uchafswm o 75 cynghorydd i reoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol;

iii) ystyrir mai'r bwriad yw cael adrannau etholiadol lle nad yw'r gymhareb rhwng cynghorydd ac etholwyr yn is nag 1:1,750;

iv) ystyrir na ddylid gwneud penderfyniadau i newid y drefn bresennol o adrannau etholiadol un aelod ac aml-aelod ond yn un lle bo cynigion o'r fath ar gyfer newid yn cael eu cefnogi'n gyffredinol gan yr etholaeth cyn belled ag

y gellir cael eu barn o ran cyflawni'r gofynion ymgynghori a nodir yn Adran 60 o'r Ddeddf; ac

v) ystyrir bod y Comisiwn wrth gynnal arolygon yn unol â Rhan 4 o'r Ddeddf yn cydymffurfio â pharagraff 1A o Atodlen 11 o'r Ddeddf, hynny yw, y Rheolau.

Ceir testun cyfan y Cyfarwyddiadau yn Atodiad 4. Cadarnhawyd y Cyfarwyddiadau ymhellach mewn llythyr gan y Gweinidog dyddiedig 12 Mai 2009. Mae copi o'r llythyr hwn yn dilyn y Cyfarwyddiadau yn Atodiad 4.

Newidiadau Llywodraeth Leol

3.8 Ers yr arolwg diwethaf o drefniadau etholiadol bu tri newid i ffiniau llywodraeth leol yng Nghaerdydd:

- *Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg 2002.*
- *Gorchymyn Caerdydd (Ystum Taf, Yr Eglwys Newydd, Llanisien, Llysfaen, Trelái a Sain Ffagan) 2003.*
- *Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009*

Gwnaeth y gorchmynion hyn fân newidiadau ôl-ddilynol i'r adrannau etholiadol priodol.

3.9 Trwy Orchymyn yn 2009, newidiodd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd enw Cymuned y Rhath i Benylan, a newidiodd hefyd enw Cymuned Plasnewydd i'r Rhath.

Gweithdrefn

3.10 Mae Adran 60 o Ddeddf 1972 yn nodi canllawiau gweithdrefnol i'w dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol ag Adran 60 o Ddeddf 1972, ar 22 Gorffennaf 2009, fe wnaethom ysgrifennu at Gyngor Dinas a Sir Caerdydd, yr holl gynghorau cymuned yn yr ardal, Aelod(au) Seneddol yr etholaeth(au) lleol, Aelodau Cynulliad yn yr ardal a phartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg ac i ofyn am eu barn gychwynnol. Gwahoddwyd y Cyngor Dinas a Sir gennym i gyflwyno cynllun neu gynlluniau awgrymedig ar gyfer trefniadau etholiadol newydd. Gwnaethom roi cyhoeddusrwydd hefyd i'n bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol â chylchrediad yn y Ddinas a'r Sir a gofyn i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd arddangos nifer o hysbysiadau cyhoeddus yn eu hardal. Trefnom hefyd fod copïau o'n llyfryn arweiniad ar arolygon etholiadol ar gael. Yn ogystal, gwnaethom gyflwyniad i gynghorwyr Dinas a chynghorwyr Cymuned fel ei gilydd gan esbonio'r broses adolygu.

4. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD CYN Y CYNIGION DRAFFT

4.1 Rydym wedi derbyn cynrychiolaethau gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd; un cyngor tref a chymuned; Jenny Willott AS a Jenny Randerson AC; chwe chynghorydd; a pum corff arall â diddordeb a thrigolion. Fe wnaethom ystyried yr holl

gynrychiolaethau hyn yn ofalus cyn llunio'n cynigion. Ceir crynodeb o'r cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 5.

5. ASESIAD

Cais am Newid Ffin Gymunedol

5.1. Cyn ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd, hoffwn ymateb i'r cynrychiolaethau a ofynnodd i ni wneud newidiadau i ffiniau adrannau etholiadol sydd yn ffiniau cymunedol neu'n ffiniau wardiau cymunedol. I'r cyfryw newidiadau ddigwydd, byddai'n angenrheidiol cynnal arolwg yn gyntaf o ffiniau cymunedol neu ffiniau wardiau cymunedol. Mae'n amlwg o'r ceisiadau hyn bod rhywfaint o ansicrwydd yn bodoli ynglŷn â'r mecanwaith priodol ar gyfer cynnal y cyfryw arolygon. Dymunwn esbonio beth yw'r sefyllfa statudol.

5.2. Mae Adran 55(2) Deddf 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1994) yn pennu gofyniad ar bob prif gyngor yng Nghymru i gadw'u hardal gyfan o dan arolwg er mwyn ystyried a ddylid gwneud argymhellion i'r Comisiwn ar gyfer cyfansoddiad cymunedau newydd, diddymu cymunedau neu newid cymunedau yn eu hardal. Mae'r Comisiwn wedyn yn ystyried cynigion y prif gyngor ac yn adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a gall hithau, os gwêl yn dda, drwy orchymyn, weithredu unrhyw un o'r cynigion.

5.3. O dan Adran 57(4) Deddf 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1994), mae dyletswydd ar y prif gynghorau hefyd i gadw dan arolwg y trefniadau etholiadol (sy'n cynnwys ffiniau wardiau cymunedol) ar gyfer y cymunedau yn eu hardaloedd, er mwyn ystyried pa un a ddylid gwneud newidiadau sylweddol. Rhaid i'r prif gynghorau hefyd ystyried ceisiadau ar gyfer newidiadau gan gyngor cymuned neu gan nid llai na deg ar hugain o etholwyr llywodraeth leol cymuned, ac, os gwelant yn dda, wneud gorchymyn sy'n gweithredu'r newidiadau hynny.

5.4. Mae newidiadau i ffiniau cymunedau a wardiau cymunedol yn fater i'r prif gyngor ei ystyried yn y lle cyntaf felly, ac ni ellir eu hystyried gennym ni fel rhan o'r arolwg hwn. Byddwn yn defnyddio'r cymunedau a'r wardiau cymunedol fel ag y maent yn bodoli ar ddechrau'r arolwg hwn fel sylfeini ar gyfer yr adrannau etholiadol arfaethedig.

Cymhareb cynghorwyr i etholwyr

5.5. Mae cyfarwyddiadau'r Gweinidog yn cynnwys y canlynol yn 3.7 (a): "Ystyrir mai cyflawni adrannau etholiadol lle mae'r gymhareb rhwng cynghorwyr ac etholwyr ddim is nag 1:1,750 y dylai'r nod fod." Mae'r Gweinidog wedi dynodi i'r Comisiwn fod hyn yn golygu na ddylai'r nifer o etholwyr fesul cynghorydd ddisgyn yn is na 1,750 fel arfer, a dyma sut y mae'r Comisiwn wedi dehongli a defnyddio'r Cyfarwyddyd. Rydym yn cydnabod y darperir y cyfarwyddiadau fel arweiniad ac ni ddylid eu defnyddio heb ystyried amgylchiadau arbennig yr ardal benodol: mae'n bosibl y bydd amgylchiadau yn ymwneud â thopograffeg neu boblogaeth ac ati o ardal, lle ystyrir bod adran etholiadol â llai na 1,750 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan un cynghorydd yn briodol. Esboniwyd hyn yn y llythyr gan y Gweinidog (Atodiad 4) a ddywedodd: "Golyga hyn fod y gymhareb yn parhau fel y

nod i geisio ei chyflawni ac nid fel y nod i'w chyflawni ym mhob achos. Wrth wneud hynny, dylid talu sylw i gymunedau lleol gael eu cynrychiolaeth adnabyddadwy hyd yn oed pan na ellir cyflawni'r ffigur dangosol o 1,750 etholwyr/cynghorydd bob tro". Yn absenoldeb amgylchiadau arbennig, byddwn yn ceisio cynnig trefniadau etholiadol lle na fydd y lefel gynrychiolaeth yn disgyn yn is na 1,750 o etholwyr fesul cynghorydd. Ni chawn ein cyfyngu yn yr un modd gan y cyfarwyddyd hwn rhag cynnig trefn etholiadol lle mae nifer yr etholwyr sydd i'w cynrychioli gan bob cynghorydd, mewn achosion priodol, yn uwch nag 1,750.

Maint y cyngor

5.6. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn cynnwys 75 aelod, sef y nifer uchaf a argymhellir gan y Gweinidog yn ei Gyfarwyddyd i'r Comisiwn (Atodiad 4). Y gymhareb gyffredinol rhwng aelodau i etholwyr ar hyn o bryd ar gyfer y cyngor yw 1:3,295, 88% yn uwch na 1,750 o etholwyr fesul cynghorydd (gweler y gymhareb Cynghorwyr i etholwyr uchod). Nodwyd bod cyfran uchel o adrannau aml-aelod ar hyn o bryd - 25 o'r cyfanswm o 29. Nodwyd hefyd mewn perthynas â nifer yr etholwyr fesul cynghorydd ym mhob adran etholiadol bod amrywio eang o'r cyfartaledd sirol presennol, sef 3,295 o etholwyr fesul cynghorydd, yn amrywio o 22% islaw (Pentwyn) i 102% uwchlaw (Butetown).

5.7. Fe wnaethom adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd yng ngolau cyfarwyddiadau'r Gweinidog i'n harwain, ac ystyriwyd y cynrychiolaethau a gyflwynwyd i ni. Yn ein trafodaethau fe wnaethom ystyried y gymhareb rhwng nifer yr etholwyr llywodraeth leol a nifer y cynghorwyr i'w hethol gyda'r nod o gynnig newidiadau er mwyn sicrhau bod nifer yr etholwyr llywodraeth leol yr un peth neu mor agos ag y bo modd, ym mhob adran yn y brif ardal. Ystyriwyd maint a chymeriad yr awdurdod ac ystod eang o ffactorau eraill gan gynnwys dwysedd y boblogaeth, y dopograffeg leol, cysylltiadau ffyrdd a chysylltiadau lleol.

5.8. Am y rhesymau a nodir isod, credwn o safbwynt budd i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus y byddai cyngor o 75 aelod etholedig yn briodol i gynrychioli Dinas a Sir Caerdydd. Golyga'r penderfyniad hwn ynghylch maint y cyngor na fydd unrhyw newid yn y cyfartaledd o 3,295 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan bob cynghorydd.

Nifer yr Etholwyr

5.9. Mae nifer yr etholwyr ar gyfer 2009 a'r amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn 2014 yn ffigurau y mae'r Comisiwn o'r farn sy'n adlewyrchu parhad y twf yn y boblogaeth yn y blynyddoedd diweddar ac a gyflwynwyd i ni gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd. Cytunwyd y ffigurau hyn gyda Chyngor Dinas a Sir Caerdydd, ac mae'r ffigurau dosranedig yn dangos cynnydd a ragwelir o 12,464 yn yr etholaeth, o 247,149 i 259,613.

Adrannau Etholiadol

5.10. Rydym wedi ystyried trefniadau etholiadol adrannau etholiadol presennol Adamsdown, Caerau, Treganna, Cathays, Cyncoed, Trelái, Gabalfa, Grangetown, Y Mynydd Bychan, Llysfaen, Llanisien, Pentwyn, Pontprennau / Pentref Llaneirwg,

Rhiwbeina, Glanyrafon, Y Sblot, Trowbridge, a'r Eglwys Newydd, a chymhareb nifer yr etholwyr llywodraeth leol i nifer y cynghorwyr i'w hethol a chynigiwn fod y trefniadau presennol yn parhau. Fe wnaethom ystyried newidiadau i'r adrannau etholiadol sy'n weddill. Ceir manylion y trefniadau etholiadol cyfredol yn Atodiad Dau.

Butetown

5.11. Mae adran etholiadol Butetown yn cynnwys Cymuned Butetown ac mae ganddi 6,673 o etholwyr (rhagamcenir 6,971) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sef cymhareb o 1:6,673 sydd 102% yn uwch na'r cyfartaledd sirol presennol.

5.12. Cynigir cynnal adran etholiadol Butetown fel a ddisgrifir yn 5.11 uchod, ond cynyddu ei chynrychiolaeth i ddau gynghorydd. Bydd yr etholaeth o 6,673 (rhagamcenir 6,971) wedyn yn arwain at ffigur o un cynghorydd i 3,337 o etholwyr, 1% yn uwch na'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Butetown** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Llandaf, Ystum Taf

5.13. Mae adran etholiadol Llandaf yn cynnwys Cymuned Llandaf ac mae ganddi 7,154 o etholwyr (rhagamcenir 7,473) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sef cymhareb o 1:3,577 sydd 9% yn uwch na'r cyfartaledd sirol presennol. Mae adran etholiadol Ystum Taf yn cynnwys Cymuned Ystum Taf ac mae ganddi 5,572 o etholwyr (rhagamcenir 5,821) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sef cymhareb o 1:2,786 sydd 15% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol.

5.14. Bydd cyfuno cymunedau Llandaf ac Ystum Taf i ffurfio un adran etholiadol newydd yn dod â'r etholaeth arfaethedig i 12,726 (rhagamcenir 13,294) a fydd, pe bai pedwar cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at ffigur o un cynghorydd fesul 3,182 o etholwyr, sydd 3% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Nodwyd bod yr adrannau yn cyd-ffinio â'i gilydd ac wedi'u cysylltu gan rwydwaith o gysylltiadau ffyrdd amrywiol yn yr un ardal ddatblygedig. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Llandaf** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Llanrhymni, Tredelerch

5.15. Mae adran etholiadol Llanrhymni yn cynnwys Cymuned Llanrhymni ac mae ganddi gyfanswm o 7,976 o etholwyr (rhagamcenir 8,332) a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sef cymhareb o 1:2,659 sydd 19% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol. Mae adran etholiadol Tredelerch yn cynnwys Cymuned Tredelerch ac mae ganddi gyfanswm o 6,444 o etholwyr (rhagamcenir 6,731) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sef cymhareb o 1:3,222 sydd 2% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol.

5.16. Bydd cyfuno'r ddwy adran etholiadol bresennol hon yn arwain at etholaeth o 14,420 (rhagamcenir 15,063) a fydd, pe bai pedwar cynghorydd yn ei chynrychioli, yn cynhyrchu ffigur o un cynghorydd fesul 3,605 o etholwyr, sydd 9% yn uwch na'r

cyfartaledd sirol arfaethedig. Nodwyd bod y ddwy ardal hon yn rhannu llawer o gysylltiadau, cyfleusterau ac amwynderau yn yr un ardal ddatblygedig. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Llanrhymni** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Pentyrch, Radur, Creigiau/ Sain Ffagan

5.17. Mae adran etholiadol Radur yn cynnwys Cymuned Radur ac mae ganddi 4,625 o etholwyr (rhagamcenir 4,829) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sef cymhareb o 1:4,625 sydd 40% yn uwch na'r cyfartaledd sirol presennol. Mae adran etholiadol Pentyrch yn cynnwys wardiau Gwaelod-y-Garth 887 (rhagamcenir 926) a Phentyrch 1,847 (rhagamcenir 1,929) yng Nghymuned Pentyrch, a gynrychiolir ar hyn o bryd gan un cynghorydd, sef cymhareb o 1:1,707 sydd 34% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol. Mae adran etholiadol Creigiau/ Sain Ffagan yn cynnwys ward Creigiau 2,119 (rhagamcenir 2,213) yng Nghymuned Pentyrch, a Chymuned Sain Ffagan 1,816 (rhagamcenir 1,896) a gynrychiolir ar hyn o bryd gan un cynghorydd, sef cymhareb o 1:3,935 sydd 19% yn uwch na'r cyfartaledd sirol presennol.

5.18. Teimlwyd bod y newid hwn o ran niferoedd cynghorwyr a chyfuno'r ardaloedd fel yr uchod yn angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer cynllun i ehangu tai yn ardal Radur a Threforgan, ynghyd â'r dymuniad i wella cydraddoldeb etholiadol. Nodom gynrychiolaeth gan Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Gogledd Caerdydd a awgrymodd y byddai capasiti cynghorydd ychwanegol yn cael ei ryddhau gan y cynnig hwn yn gallu cael ei ddefnyddio wedyn mewn adran etholiadol yn y Sir a dangynrychiolir ar hyn o bryd. Roedd cynrychiolaeth gan Grŵp Llafur Caerdydd yn gwneud awgrym tebyg hefyd.

5.19. Bydd cyfuno Cymuned Pentyrch a Chymuned Radur yn creu adran etholiadol newydd a chanddi etholaeth arfaethedig o 9,478 o etholwyr (rhagamcenir 9,897), a fydd, pe bai tri chynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at ffigur o un cynghorydd fesul 3,159 o etholwyr, sydd 4% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Pentyrch** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Y Tyllgoed, Creigiau a Sain Ffagan

5.20. Mae adran etholiadol Y Tyllgoed yn cynnwys Cymuned Y Tyllgoed ac mae ganddi 9,216 o etholwyr (rhagamcenir 9,627) a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sef cymhareb o 1:3,072 sydd 7% yn is na'r cyfartaledd sirol. Mae adran etholiadol Creigiau a Sain Ffagan yn cynnwys Cymuned Sain Ffagan sydd â 1,816 o etholwyr (rhagamcenir 1,896), a ward Creigiau 2,119 (rhagamcenir 2,213) yng nghymuned Pentyrch a gynrychiolir gan un cynghorydd, sef cymhareb o 1:3,935 sydd 19% yn uwch na'r cyfartaledd sirol.

5.21. Bydd cyfuno cymunedau'r Tyllgoed a Sain Ffagan yn arwain at etholaeth arfaethedig o 11,032 o etholwyr (rhagamcenir 11,523) a fydd, pe bai tri chynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at ffigur o un cynghorydd fesul 3,677 o etholwyr, sydd 14% yn uwch na'r cyfartaledd sirol arfaethedig. Nodwyd bod y

cymunedau hyn yn cydffinio â'i gilydd, ac mae modd cyfathrebu'n dda rhyngddynt ar hyd Ffyrdd Sain Ffagan a Chaerdydd a llwybrau eraill sy'n fforchio o'r llwybrau hynny. Byddai'r cyfuno hwn yn gweld gostyngiad o un cynghorydd yn cynrychioli'r ardal, ond bydd hyn yn gwella cydraddoldeb etholiadol. Cyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Rydym wedi rhoi'r enw gweithredol **Gorllewin Caerdydd** i'r adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

Y Rhath

5.22. Mae Dinas a Sir Caerdydd wedi gwneud gorchymyn i newid enw Cymuned Y Rhath i Benylan. Er nad ydym yn gwneud unrhyw gynigion i newid y ffiniau na nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli adran etholiadol bresennol Y Rhath, er mwyn osgoi dryswch, cynigiwn newid enw'r adran etholiadol o'r Rhath i Benylan.

Plasnewydd

5.23. Mae Dinas a Sir Caerdydd wedi gwneud gorchymyn i newid enw Cymuned Plasnewydd i'r Rhath. Er nad ydym yn gwneud unrhyw gynigion i newid y ffiniau na nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli adran etholiadol bresennol Y Rhath, er mwyn osgoi dryswch, cynigiwn newid enw'r adran etholiadol o Blasnewydd i'r Rhath.

Newid enwau

5.24. Rydym wedi derbyn ceisiadau i newid enwau nifer o Adrannau Etholiadol, sef:
- Gabalfa i'r Maendy.
- Y Mynydd Bychan i'r Mynydd Bychan a Birchgrove.
- Pentwyn i Bentwyn a Llanedeyrn.
- Rhiwbeina i Riwbeina a Phantmawr.

5.25. Mae pob un o'r adrannau etholiadol hyn wedi'u henwi o'r Cymunedau sy'n ffurfio'r adran etholiadol. Gan na fu unrhyw newidiadau i enwau'r Cymunedau hyn, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i newid enwau'r adrannau etholiadol fel yr awgrymwyd.

5.26. Rydym hefyd wedi derbyn ceisiadau i newidiadau enwau Cymunedau gael eu hymgorffori yn yr Arolwg. Mae newidiadau i enwau Cymunedau y tu allan i gwmpas yr arolwg hwn ac yn fater i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ei ystyried.

6. CYNIGION

6.1. Cynigiwn gyngor o 75 aelod a 25 o adrannau etholiadol fel y'i nodir yn Atodiad 3. At ddibenion cymharu, gwelir y trefniadau etholiadol presennol ar gyfer y Ddinas a'r Sir yn Atodiad 2. Mae ffiniau'r adrannau etholiadol arfaethedig yn felyn ar y map a osodir gyda'r Adroddiad hwn yn Swyddfeydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, ac yn Swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

6.2. Ein barnau cychwynnol ar y trefniadau etholiadol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd yw'r cynllun drafft hwn. Croesawn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r cynigion hyn. Byddwn yn ystyried yn ofalus yr holl gynrychiolaethau a gyflwynir i ni cyn llunio'n cynigion terfynol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

7. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

7.1. Dylid anfon pob sylw ar y cynllun drafft hwn at:

Yr Ysgrifennydd
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

heb fod yn hwyrach na 11 Mai 2010.

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Dirprwy Gadeirydd)

Mr D J BADER (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Chwefror 2010

Rhestr o Dermau a Ddefnyddir yn y cyfarwyddyd

Arolwg o Ffiniau	Arolwg lle mae'r Comisiwn yn adolygu ffiniau ardal llywodraeth leol
Blociau adeiladu	Gan fod gofyn bod cymunedau a (lle maent yn bodoli) wardiau cymunedol sefyll mewn un adran etholiadol, cânt eu defnyddio fel blociau adeiladu ar gyfer yr adrannau etholiadol
Comisiwn	Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Maint y cyngor	Nifer y cynghorwyr a etholir i'r cyngor
Cyfarwyddiadau	Cyfarwyddiadau a roddwyd i'r Comisiwn gan y Llywodraeth o dan Adran 59 Deddf 1972
Trefniadau etholiadol	Faint o gynghorwyr y dylid eu cael ar gyngor ardal llywodraeth leol, y rhannau y dylid rhannu'r ardal iddynt at bwrpas ethol cynghorwyr, nifer y cynghorwyr ar gyfer pob adran etholiadol, ac enw'r ardal etholiadol
Adrannau etholiadol	Yr adrannau y caiff prif adrannau eu rhannu iddynt at bwrpas ethol cynghorwyr, a elwir weithiau'n wardiau ar lafar
Arolwg etholiadol	Arolwg lle mae'r Comisiwn yn ystyried trefniadau etholiadol ar gyfer ardal llywodraeth leol
Yr etholwyr	Nifer y bobl sydd â'r hawl i bleidleisio mewn ardal llywodraeth leol
Llywodraeth	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Y rhai â diddordeb	Unigolyn neu gorff sydd â diddordeb yng nghanlyniadau adolygiad etholiadol fel y prif gyngor dan sylw, Aelodau Seneddol lleol a phleidiau gwleidyddol, a chynghorau cymuned a thref
Adran aml-aelod	Adran etholiadol mewn prif ardal a gynrychiolir gan fwy nag un cynghorydd
Gorchymyn	Gorchymyn a wneir gan y Llywodraeth sy'n gweithredu cynigion y Comisiwn, naill fel y'u cyflwynwyd neu wedi'u haddasu
Prif ardal	Ardal a lywodraethir gan brif gyngor: yng Nghymru, Sir neu Fwrdeistref Sirol
Prif gyngor	Yng Nghymru, un o'r awdurdodau unedol: Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol

Ymatebydd	Corff neu unigolyn sy'n ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn drwy wneud cynrychiolaethau neu gynnig cynigion amgen
Rheolau	Rheolau y bydd y Comisiwn yn eu dilyn wrth ystyried trefniadau etholiadol, a osodir allan yn Atodlen 11 Deddf 1972
Adran un aelod	Adran etholiadol prif awdurdod a gynrychiolir gan un cynghorydd
Deddf 1972	Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1994
Deddf 1994	Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994
Awdurdod Unedol	Prif gyngor - un haen o lywodraeth leol, sy'n gyfrifol am yr holl swyddogaethau llywodraethol (neu bron pob un ohonynt) yn ei ardal; a gymerodd le system dwy haen cynghorau sir a chynghorau dosbarth yng Nghymru: Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol

DINAS A SIR CAERDYDD
AELODAETH BRESENNOL Y CYNGOR

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER CYNGHORWYR	NIFER ETHOLWYR 2009	NIFER ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol	NIFER ETHOLWYR 2014	NIFER ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol
1	**Adamsdown**	Cymuned Adamsdown 6,212 (6,489)	2	6,212	3,106	-6%	6,489	3,245	-2%
2	**Butetown**	Cymuned Butetown 6,673 (6,971)	1	6,673	6,673	102%	6,971	6,971	112%
3	**Caerau**	Cymuned Caerau 7,303 (7,629)	2	7,303	3,652	11%	7,629	3,815	16%
4	**Treganna**	Cymuned Treganna 10,472 (10,939)	3	10,472	3,491	6%	10,939	3,646	11%
5	**Cathays**	Cymuned Castell 1,070 (1,117) a Chymuned Cathays 14,436 (15,079)	4	15,506	3,877	18%	16,196	4,049	23%
6	**Creigiau/ Sain Ffagan**	Ward Cregiau o Gymuned Pentyrch 2,119 (2,213) a Chymuned Sain Ffagan 1,816 (1,896)	1	3,935	3,935	19%	4,109	4,109	25%
7	**Cyncoed**	Cymuned Cyncoed 8,668 (9,055)	3	8,668	2,889	-12%	9,055	3,018	-8%
8	**Trelái**	Cymuned Trelái 9,197 (9,607)	3	9,197	3,066	-7%	9,607	3,202	-3%
9	**Y Tyllgoed**	Cymuned Y Tyllgoed 9,216 (9,627)	3	9,216	3,072	-7%	9,627	3,209	-3%
10	**Gabalfa**	Cymuned Gabalfa 6,805 (7,109)	2	6,805	3,403	3%	7,109	3,555	8%
11	**Grangetown**	Cymuned Grangetown 12,052 (12,590)	3	12,052	4,017	22%	12,590	4,197	27%
12	**Y Mynydd Bychan**	Cymuned Y Mynydd Bychan 9,708 (10,141)	3	9,708	3,236	-2%	10,141	3,380	3%
13	**Llysfaen**	Cymuned Llysfaen 2,827 (2,953)	1	2,827	2,827	-14%	2,953	2,953	-10%
14	**Llandaf**	Cymuned Llandaf 7,154 (7,473)	2	7,154	3,577	9%	7,473	3,737	13%
15	**Ystum Taf**	Cymuned Ystum Taf 5,572 (5,821)	2	5,572	2,786	-15%	5,821	2,911	-12%
16	**Llanisien**	Cymuned Llanisien 12,637 (13,201)	4	12,637	3,159	-4%	13,201	3,300	0%
17	**Llanrhymni**	Cymuned Llanrhymni 7,796 (8,332)	3	7,976	2,659	-19%	8,332	2,777	-16%
18	**Pentwyn**	Cymuned Pentwyn 10,295 (10,754)	4	10,295	2,574	-22%	10,754	2,689	-18%
19	**Pentyrch**	Wardiau Gwaelod-y-Garth 887 (930) a Phentyrch 1,847 (1,929) o Gymuned Pentyrch	1	2,734	2,734	-17%	2,855	2,855	-13%
20	**Penylan**	Cymuned Penylan 9,703 (10,136)	3	9,703	3,234	-2%	10,136	3,379	3%
21	**Plasnewydd**	Cymuned Y Rhath 13,684 (14,294)	4	13,684	3,421	4%	14,294	3,574	8%
22	**Pontprennau/ Pentref Llaneirwg**	Cymuned Pontprennau 5,061 (5,286), a Chymuned Pentref Llaneirwg 1,790 (1,869)	2	6,851	3,426	4%	7,155	3,578	9%
23	**Radur**	Cymuned Radur 4,625 (4,829)	1	4,625	4,625	40%	4,829	4,829	47%
24	**Rhiwbeina**	Cymuned Rhiwbeina 9,108 (9,514)	3	9,108	3,036	-8%	9,514	3,171	-4%
25	**Glanyrafon**	Cymuned Glanyrafon 9,263 (9,676)	3	9,263	3,088	-6%	9,676	3,225	-2%
26	**Tredelerch**	Cymuned Tredelerch 6,444 (6,731)	2	6,444	3,222	-2%	6,731	3,366	2%
27	**Y Sblot**	Cymuned Y Sblot 9,283 (9,697)	3	9,283	3,094	-6%	9,697	3,232	-2%
28	**Trowbridge**	Cymuned Trowbridge 10,539 (11,009)	3	10,539	3,513	7%	11,009	3,670	11%
29	**Yr Eglwys Newydd**	Cymuned Yr Eglwys Newydd 11,321 (13,274) a Chymuned Tongwynlais 1,386 (1,447)	4	12,707	3,177	-4%	14,721	3,680	12%
	CYFANSWM:		**75**	**247,149**	**3,295**		**259,613**	**3,462**	

	2009		2014	
Mwy na ± 50% o'r cyfartaledd Sirol	1	3%	1	3%
Rhwng ± 25% a ± 50% o'r cyfartaledd Sirol	1	3%	2	7%
Rhwng ± 10% a ± 25% o'r cyfartaledd Sirol	10	34%	11	38%
Rhwng 0% a ± 10% o'r cyfartaledd Sirol	17	59%	15	52%

Atodiad 2

DINAS A SIR CAERDYDD
TREFNIADAU ARFAETHEDIG

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER CYNGHORWYR	NIFER ETHOLWYR 2009	NIFER ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol	NIFER ETHOLWYR 2014	NIFER ETHOLWYR FESUL CYNGHORYDD 2014	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol
1	**Adamsdown**	Cymuned Adamsdown 6,212 (6,489)	2	6,212	3,106	-6%	6,489	3,245	-6%
2	**Butetown**	Cymuned Butetown 6,673 (6,971)	2	6,673	3,337	1%	6,971	3,486	1%
3	**Caerau**	Cymuned Caerau 7,303 (7,629)	2	7,303	3,652	11%	7,629	3,815	10%
4	**Treganna**	Cymuned Treganna 10,472 (10,939)	3	10,472	3,491	6%	10,939	3,646	5%
5	**Cathays**	Cymuned Castell 1,070 (1,117) a Chymuned Cathays 14,436 (15,079)	5	15,506	3,101	-6%	16,196	3,239	-6%
6	**Cyncoed**	Cymuned Cyncoed 8,668 (9,055)	3	8,668	2,889	-12%	9,055	3,018	-13%
7	**Trelái**	Cymuned Trelái 9,197 (9,607)	3	9,197	3,066	-7%	9,607	3,202	-7%
8	**Gabalfa**	Cymuned Gabalfa 6,805 (7,109)	2	6,805	3,403	3%	7,109	3,555	3%
9	**Grangetown**	Cymuned Grangetown 12,052 (12,590)	3	12,052	4,017	22%	12,590	4,197	21%
10	**Y Mynydd Bychan**	Cymuned Y Mynydd Bychan 9,708 (10,141)	3	9,708	3,236	-2%	10,141	3,380	-2%
11	**Llysfaen**	Cymuned Llysfaen 2,827 (2,953)	1	2,827	2,827	-14%	2,953	2,953	-15%
12	**Llandaf**	Cymuned Llandaf 7,154 (7,473), a Chymuned Ystum Taf 5,572 (5,821)	4	12,726	3,182	-3%	13,294	3,324	-4%
13	**Llanisien**	Cymuned Llanisien 12,637 (13,201)	4	12,637	3,159	-4%	13,201	3,300	-5%
14	**Llanrhymni**	Cymuned Llanrhymni 7,976 (8,332) a Chymuned Tredelerch 6,444 (6,731)	4	14,420	3,605	9%	15,063	3,766	9%
15	**Pentwyn**	Cymuned Pentwyn 10,295 (10,754)	3	10,295	3,432	4%	10,754	3,585	4%
16	**Pentyrch**	Cymuned Pentyrch 4,853 (5,068) a Chymuned Radur 4,625 (4,829)	3	9,478	3,159	-4%	9,897	3,299	-5%
17	**Penylan**	Cymuned Penylan 9,703 (10,136)	3	9,703	3,234	-2%	10,136	3,379	-2%
18	**Pontprennau/ Pentref Llaneirwg**	Cymuned Pontprennau 5,061 (5,286), a Chymuned Pentref Llaneirwg 1,790 (1,869)	2	6,851	3,426	4%	7,155	3,578	3%
19	**Rhiwbeina**	Cymuned Rhiwbeina 9,108 (9,514)	3	9,108	3,036	-8%	9,514	3,171	-8%
20	**Glanyrafon**	Cymuned Glanyrafon 9,263 (9,676)	3	9,263	3,088	-6%	9,676	3,225	-7%
21	**Y Rhath**	Cymuned Y Rhath 13,684 (14,294)	4	13,684	3,421	4%	14,294	3,574	3%
22	**Y Sblot**	Cymuned Y Sblot 9,283 (9,697)	3	9,283	3,094	-6%	9,697	3,232	-7%
23	**Trowbridge**	Cymuned Trowbridge 10,539 (11,009)	3	10,539	3,513	7%	11,009	3,670	6%
24	**Gorllewin Caerdydd**	Cymuned Y Tyllgoed 9,216 (9,627) a Chymuned Sain Ffagan 1,816 (1,896)	3	11,032	3,677	12%	11,523	3,841	11%
25	**Yr Eglwys Newydd**	Cymuned Yr Eglwys Newydd 11,321 (13,274) a Chymuned Tongwynlais 1,386 (1,447)	4	12,707	3,177	-4%	14,721	3,680	6%
		CYFANSYMIAU	**75**	**247,149**	**3,295**		**259,613**	**3,462**	

Y gymhareb yw nifer yr etholwyr fesul cynghorydd
Cynhwysir nifer yr etholwyr ar gyfer 2009 a 2014 (mewn cromfachau) yn nisgrifiad yr adrannau etholiadol hynny sy'n cynnwys mwy nag un cymuned / ward gymunedol
Cyflwynwyd y ffigurau ar gyfer nifer yr etholwyr gan Gyngor Sir Caerdydd

	2009		2014	
Mwy na ± 50% o'r cyfartaledd Sirol	0	0%	0	0%
Rhwng ± 25% a ± 50% o'r cyfartaledd Sirol	0	0%	0	0%
Rhwng ± 10% a ± 25% o'r cyfartaledd Sirol	5	20%	4	16%
Rhwng 0% a ± 10% o'r cyfartaledd Sirol	20	80%	21	84%

Atodiad 3

IS-DDEDDFWRIAETH

2009 RHIF 2

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Cyfarwyddiadau i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru 2009

Gwnaed	*2009*
Yn dod i rym	*2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 59(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru 2009.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "y Comisiwn" (*"the Commission"*) yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru; ac

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Adrannau Amlaelod

3. Yn unol â pharagraff 1A(3) o Atodlen 11 i'r Ddeddf(**3**) mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried pa mor ddymunol fyddai adrannau etholiadol amlaelod ym mhob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol(**4**) yn y prif ardaloedd yng Nghymru a grybwyllir yn adran 20, Atodlen 4 i'r Ddeddf.

---

(1) 1972 p.70.

(2) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a pharagraff 30 (1) a (2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(3) Fel y'i mewnosodwyd gan adran 7(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1994.

(4) Fel y cyfeirir atynt yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, adran 20, Atodlen 4, a amnewidir gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, adran 1(2), Atodlen 1, paragraff 2.

Adolygu trefniadau etholiadol

4. Yn unol ag adran 59(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru'n rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Comisiwn er mwyn ei gyfarwyddo yn y gwaith o adolygu trefniadau etholiadol y mae'n ofynnol o dan adran 55 o'r Ddeddf iddo ei wneud —

(a) Ystyrir bod angen isafswm o 30 o gynghorwyr ar gyfer rheoli'n briodol fusnes cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

(b) Ystyrir bod angen uchafswm o 75 o gynghorwyr fel arfer i reoli'n briodol fusnes cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, fel y byddo'r risg o gael cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol anhylaw ac anodd ei drin mor fach â phosibl;

(c) Ystyrir y dylid amcanu at gael adrannau etholiadol â chymhareb cynghorwyr i etholwyr nad yw'n llai na 1:1750;

(ch) Ystyrir na ddylid penderfynu newid patrwm presennol adrannau amlaelod ac adrannau un aelod yn yr ardaloedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 o'r Cyfarwyddiadau hyn ond pan gefnogir y cyfryw gynigion yn gyffredinol gan yr etholwyr, i'r graddau y gellir gwybod safbwyntiau'r etholwyr er mwyn bodloni'r gofyniad am ymgynghori a geir yn adran 60 o'r Ddeddf;

(d) Ystyrir bod yn rhaid i'r Comisiwn, pan fydd yn cynnal adolygiadau o dan Ran 4 o'r Ddeddf, gydymffurfio â pharagraff 1A o Atodlen 11 i'r Ddeddf ac â'r Cyfarwyddiadau hyn.

Adroddiadau ar adolygu trefniadau etholiadol

5. Yn unol ag adran 58(1) o'r Ddeddf mae Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo bod yn rhaid cyflwyno i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin 2011 adroddiadau a baratowyd gan y Comisiwn mewn cysylltiad ag adolygu trefniadau etholiadol mewn perthynas â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref lleol yng Nghymru .

Llofnodwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad 13/1/ 2009

12 Mai 2009

Cyfarwyddiadau ynglŷn ag Arolygon o Drefniadau Etholiadol

Rwy'n ymwybodol eich bod chi wedi cychwyn gwaith rhagarweiniol yn y cylch o arolygon o drefniadau etholiadol ym mhob un o'r prif gynghorau. Mae cyflwyniadau a dderbyniais gan lywodraeth leol yn awgrymu i mi eich bod chi efallai wedi dehongli fy nghyfarwyddiadau i fod yn fwy cyfarwyddol na'r rhai a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1995 cyn y cylch adolygu diwethaf. Rwyf eisiau ei gwneud hi'n eglur mai nid felly y mae.

Cyhoeddwyd y cyfarwyddiadau er arweiniad i chi ac ni ddylid eu hystyried yn orchmynion. Ar lawer cyfrif - yn neilltuol, mewn perthynas â'r ardaloedd sy'n addas ar gyfer adrannau ag aelodau lluosog a'r amserlen - roedd y cyfarwyddiadau diwethaf yn fwy cyfarwyddol ond mewn perthynas â mater canolog y gymhareb rhwng cynghorwyr ac etholwyr, mae'r geiriad yn union debyg. Mae hyn yn golygu bod y gymhareb yn parhau fel nod i weithio tuag ato ac nid fel nod i'w gyflawni ym mhob achos. Wrth wneud hyn, dylid rhoi sylw i gymunedau lleol yn cael eu cynrychiolwyr canfyddadwy eu hun, hyd yn oed ble nad yw'r ffigwr dangosol o 1,750 o etholwyr/cynghorydd bob amser yn gyraeddadwy.

Wrth gwrs, rwy'n cydnabod er 1995 rydym wedi gweld cyflwyno trefniadau gweithredol neu amgen ymhlith prif gynghorau, ac efallai byddant yn arwyddocaol o ran nifer y cynghorwyr sydd eu hangen i wneud cyngor yn hollol ymarferol. Hefyd cafodd cyfarwyddiadau 1995 eu cyflwyno ar adeg pan oedd ad-drefnu'n digwydd, mewn awyrgylch gwleidyddol gwahanol i'r hyn sy'n bodoli nawr.

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw at yr amodiad yn Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid ystyried yr angen i sefydlogi ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod ac sy'n cydnabod cysylltiadau'r gymuned leol.

Rwy'n dymuno'n dda i chi yn y broses adolygu.

Yn gywir

Cyfieithiad Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yw hwn o lythyr gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Atodiad 5

CRYNODEB O GYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

Ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Pentyrch** gan gynnig awgrymiadau ar gyfer adlinio ffiniau cymunedol ynghyd ag adleoli cynghorwyr cymuned ym mhob un o'r pentrefi dan sylw.
Hefyd, cynigiwyd sylwadau gan y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r ffin Gymunedol, yn ogystal â phle i isetholiadau cymunedol gael eu hariannu gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd.

Ysgrifennodd **Jenny Willott AS (Canol Caerdydd) a Jenny Randerson AC (Canol Caerdydd)** gan gynnig awgrymiadau ynglŷn ag ailenwi adrannau etholiadol yng Nghaerdydd, ac roeddent yn gwrthwynebu unrhyw gynlluniau i ostwng nifer y cynghorwyr yng Nghaerdydd, gan alw am ddod â'r gymhareb "trigolion fesul cynghorydd" yn fwy unol â'r arweiniad, a chan wrthwynebu unrhyw gynigion i ostwng niferoedd cynghorwyr yng Nghaerdydd.

Ysgrifennodd **y Cynghorydd Sir Rodney Berman (Plasnewydd) ar ran y Cynghorydd Richard Jerrett, y Cynghorydd Elgan Morgan a'r Cynghorydd Mark Stephens** gan gynnig awgrymiadau ar gyfer ailenwi adran etholiadol "Plasnewydd" yn "Y Rhath".

Nododd **y Cynghorydd Sir Fenella Bowden (Y Mynydd Bychan)** y bydd y trefniadau presennol ar gyfer ward Y Mynydd Bychan yn ddigonol yn y dyfodol. Awgrymodd y Cynghorydd Bowden hefyd bod ward Y Mynydd Bychan yn cael ei enwi yn Y Mynydd Bychan a Birchgrove.

Nododd **y Cynghorydd Sir Ed Bridges (Gabalfa)** hefyd bod angen cysoni ffiniau wardiau yn y gymuned myfyrwyr yng Ngabalfa er mwyn annog myfyrwyr i bleidleisio. Gofynnodd y Cynghorydd Bridges hefyd am i'r ward gael ei hail-enwi o "Gabalfa" i'r "Maendy", ond nododd na fyddai angen addasu ymhellach y trefniadau presennol ar gyfer gweddill Ward Gabalfa.

Gofynnodd **y Cynghorwyr Sir Jayne Cowan, Adrian Robson a Brian Jones (Rhiwbeina)** a ellid ailenwi ward Rhiwbeina a'i galw yn ward Rhiwbeina a Phantmawr. Nid oedd unrhyw bryderon eraill ynglŷn â ffiniau gan fod ysbryd cymunedol cryf yn yr ardal, ardal y gellir ei hadnabod yn glir gan ei daearyddiaeth.

Nododd **y Cynghorydd Sir Fenella Bowden (Democratiaid Rhyddfrydol Gogledd Caerdydd)** bod angen newid ffiniau o amgylch ardal myfyrwyr Talybont, a hefyd newid enw'r ward o Gabalfa i'r Maendy.
Cynigiodd y Cynghorydd Bowden hefyd bod Tongwynlais yn cael ei wahanu oddi wrth Dongwynlais a'r Eglwys Newydd, ac yn lle hynny, ei gydio wrth Dreforgan a Gwaelod-y-Garth i ffurfio grŵp newydd yn rhannu priodweddau tebyg. Mae'n nodi y gallai un aelod wasanaethu'r adran newydd, lai hon, a lleihau'r Eglwys Newydd i adran tri aelod.
Mae'r Cynghorydd Bowden yn nodi ymhellach y byddai Llanisien a Thornhill yn elwa o gael eu rhannu'n ddwy ward yn cael eu cynrychioli gan ddau Gynghorydd yr un. Byddai hyn yn agor y posibilrwydd o greu ward Thornhill a Llysfaen â thri aelod pe bai'r niferoedd yn gofyn am hynny.
Ni fyddai angen gwneud unrhyw newidiadau i drefniadau yng Ngogledd Llandaf; Rhiwbeina; Y Mynydd Bychan; na Phentref Llaneirwg a Phontprennau.

Ysgrifennodd **Grŵp Llafur Sir Caerdydd** yn cefnogi'r cyfyngiad 75 aelod ar gynghorau a'r trefniant aml-aelod sydd yn aml yn galluogi cynghorwyr i ddarparu cymorth i'w gilydd a rhannu gwybodaeth a sgiliau.
Roedd awgrym pellach yn ymwneud â'r ffaith nad yw niferoedd trigolion mewn adran yn cyfateb i nifer yr etholwyr, ac mae hyn yn effeithio ar lwyth gwaith cynghorwyr – yr ateb a awgrymwyd i'r sefyllfa hon oedd y byddai angen ailddosbarthu cynghorwyr o ardaloedd mwy cefnog i'r ardaloedd hynny ag amddifadedd cymdeithasol uwch.
Awgrymodd y grŵp hefyd, fodd bynnag, y dylai fod uchafswm o dri chynghorydd i bob adran – bydd hyn yn golygu rhannu rhai o'r adrannau etholiadol presennol, a dylai adrannau newydd ddilyn ffiniau cymunedol presennol.
Cynigiwyd rhai awgrymiadau i newid enwau hefyd – newid Plasnewydd i'r Rhath, er enghraifft – a defnyddio Llanisien, Llanedeyrn, Pentwyn, Thornhill, Tongwynlais, a'r Eglwys Newydd fel bo'r angen wrth enwi adrannau etholiadol newydd pe bai'r adrannau etholiadol pedwar aelod presennol yn cael eu rhannu.

Ysgrifennodd **Grŵp Ceidwadwyr Sir Caerdydd** hefyd yn cefnogi maint 75 aelod y Cyngor presennol, a chan wrthwynebu unrhyw symudiadau i leihau'r nifer hwnnw gan ddyfynnu'r cynnydd yn yr etholaeth. Roedd y grŵp o'r farn mai'r unig ffordd i ymdopi â llwyth gwaith ychwanegol nifer uwch o etholwyr oedd ystyried cynghorwyr amser llawn.
Nododd y grŵp y byddai'r pedair o'r pum adran un aelod presennol sy'n weddill yn parhau ar y lefel honno, ond teimlai y bydd Llysfaen yn elwa o'i uno ag adran etholiadol Pentref Llaneirwg a Phontprennau, a chael cynrychiolaeth tri chynghorydd. Ochr yn ochr â'r sylw hwn, gwnaed yr awgrym i sefydlu Cyngor Cymuned newydd yn cwmpasu ardaloedd cyfan Pentref Llaneirwg a Phontprennau.
Awgrymwyd newidiadau pellach i:

- Butetown – gyda 6,392 o etholwyr – mae'n cyfiawnhau cynrychiolaeth ychwanegol aelod arall, i ddod yn ward dau aelod.
- Pentwyn – gyda 10,131 o etholwyr - cred y grŵp y byddai tri aelod yn lle pedwar yn nifer tecach o aelodau ar gyfer yr ardal hon.

Roedd **Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Canol a De Sir Caerdydd a Phenarth** yn pryderu ynglŷn â maint y Cyngor presennol a'i gymhareb etholwyr i gynghorydd. Roedd y grŵp o'r farn mai'r unig ffordd i ymdopi â thwf yr etholaeth oedd cynyddu nifer y cynghorwyr ychydig uwchlaw'r terfyn 75 aelod a awgrymwyd yn yr arweiniad. Er na phennwyd unrhyw rif, byddai hyn yn galluogi cydweddiad cyffredinol gwell â'r gymhareb o nid llai na 1:1,750 fel a ddisgrifir yn yr arweiniad.
Gwnaeth y grŵp rai awgrymiadau hefyd ynglŷn ag ailenwi adrannau etholiadol – yn benodol, Pentwyn i Bentwyn a Llanedeyrn, Plasnewydd i'r Rhath, a Trowbridge i Trowbridge a Llaneirwg.

Ysgrifennodd **Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Gogledd Caerdydd** gan gynnig awgrymiadau ar gyfer creu:

- Adran etholiadol tri aelod newydd yn cwmpasu'r Tyllgoed a Sain Ffagan oherwydd eu perthynas agosach a'u cysylltiadau trafnidiaeth;
- Adran etholiadol un aelod newydd yn cwmpasu Creigiau a Phentyrch oherwydd ei chysylltiadau â Chynghorau Cymuned;

Yn sgil ei gynlluniau i ehangu tai, aeth y grŵp ymlaen i awgrymu newidiadau tebyg ar gyfer Radur a Threforgan a fyddai i weld yn gofyn bod De a Gogledd Radur yn cael eu cyfuno i greu adran etholiadol newydd, a byddai Treforgan yn dod yn rhan o adran etholiadol un aelod newydd yn cynnwys Gwaelod-y-Garth, Tongwynlais a Threforgan.

Byddai hyn (yn ddamcaniaethol) yn gostwng nifer y cynghorwyr o un, a theimlai'r grŵp y byddai'n fuddiol ailddyrannu capasiti'r cynghorydd hwnnw i un o'r adrannau etholiadol mwy – Butetown, Grangetown, neu Cathays, er enghraifft.
Nododd y grŵp na theimlwyd bod angen unrhyw newidiadau ar gyfer Treganna, Caerau, Trelái, Llandaf, na Glanyrafon.

Dywedodd **Mr Steve Bowden (Democratiaid Rhyddfrydol Gogledd Caerdydd)** nad oedd angen am unrhyw newidiadau i ffiniau Y Mynydd Bychan, a gofynnodd a ellid ailenwi ward Y Mynydd Bychan yn Y Mynydd Bychan a Birchgrove fel rhan o'r arolwg?